Pryfed Peillio *Cymru*
Pollinators *in Wales*

# Beth mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio wedi'i wneud hyd yn hyn?

Llywodraeth Cymru
Welsh Government







## Annog pawb i wneud rhywbeth positif

Cynllun Talebau Penwythnos Gwyllt y Prosiect Swyn Naturiol – cynllun er lles pryfed peillio o dan ofal Cadw Cymru'n Daclus mewn partneriaeth â Chymdeithas y Fasnach Arddwrol a Man Gwyrdd Cymru.

## Darparu mwy o amrywiaeth o gynefinoedd llawn blodau

Mae Cyngor Dinas Abertawe wedi bod yn plannu blodau i ddenu pryfed peillio ar gylchfannau ac ymylon glas y ddinas.

## Cynnal poblogaethau iach a chynaliadwy o bryfed peillio

Mae gan Gyngor Tor-faen brosiect o'r enw 'Peillio am Oes' sy'n cynnal amrywiaeth o weithgareddau i reoli a gwella cynefinoedd ac amodau mewn ffordd gynaliadwy a thymor hir er lles pryfed peillio.

## Codi ymwybyddiaeth a darparu gwybodaeth

Menter yw Urban Pollen8 i sbarduno pobl i greu mannau sy'n denu pryfed peillio yn ninasoedd a threfi Cymru.

Mae Cymdeithas Gwenynwyr Cymru a'r Gymdeithas Gwella Gwenyn a Bridwyr Gwenyn yn parhau i weithio i annog gwenynwyr i fagu mathau lleol o wenyn.

## Datblygu sylfaen o dystiolaeth ar gyfer gweithredu yn y dyfodol

Mae Cymru'n rhan o Gynllun Monitro Pryfed Peillio a Pheillio Cenedlaethol y DU i fonitro newidiadau yn sefyllfa pryfed peillio dros amser.

## Mentrau eraill

Mae Prifysgol Caerdydd a'r Ardd Fotaneg Genedlaethol wedi bod yn astudio mêl o Gymru i weld a oes modd dyfeisio cyffuriau newydd i drechu heintiau a bacteria mewn ysbytai sydd wedi magu ymwrthedd i wrthfiotigau.

**Delweddau**
Prif lun: Rhos arfordirol – Davey Martyn
Chwith: Gweirlöyn y Ddôl – Vaughn Matthews
Canol: Cacynen yr Ardd – Cath Shelswel
Dde: Pryf Hofran – Vaughn Matthews

OGL
WG25745